

Enw: William Mortimer Lewis

Dyddiad geni: 1840

Dyddiad marw: 1880

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: prifathro Coleg y Bedyddwyr, Pontyp I

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg

Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd Gorffennaf 1840 ym Meidrym, Sir Gaerfyrddin. Derbyniodd ei addysg gynnar yn ysgol y pentref, a than [Alcwyn Evans](#) yng Nghaerfyrddin. Pan oedd yn 13 oed, prentisiwyd ef i ddilledydd yng Nghaerfyrddin am bum mlynedd, ac yn ystod yr amser hwn derbyniodd egwyddorion y Bedyddwyr. Aeth i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin yn 1860, ac ar ôl pedair blynedd yno aeth i Brifysgol Glasgow ac yno cymerodd radd M.A. Yn 1870, aeth i Goleg Regent's Park, ond yn Chwefror 1871 apwyntiwyd ef yn athro yng Ngholeg y Bedyddwyr ym Mhontyp I. Etholwyd ef yn brifathro'r coleg hwnnw yn 1877, ond colodd ei iechyd a bu farw yn yr Yswisdir 18 Hydref 1880.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr, Mawrth 1871, Mehefin 1877, Tachwedd 1880

H. Blackwell, [NLW MS 9264A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

E. P. Jones, *Oriel Coleg Caerfyrddin* (1909)

The Baptist Magazine (1809–1904), 1883

Delweddau

[W. Mortimer Lewis](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734682](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

